Cyfreithlondeb

Trosolwg – Pa mor gyfreithlon mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Aseswyd Heddlu De Cymru fel llu sydd yn dda o ran cyfreithlondeb y modd mae'n cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddu ag ef. Mae ein canfyddiadau eleni yn gyson â chanfyddiadau llynedd, lle gwnaethom ddyfarnu bod y llu'n dda o ran cyfreithlondeb. Mae'r llu wedi gweithio'n galed i ddeall a sicrhau bod ei werthoedd ac ymddygiadau'n cydfynd â holl elfennau'r Cod Moeseg. Mae trin pobl yn deg ac â pharch yn ganolog i ymagwedd y llu ac mae'n ffurfio sylfaen i'r holl hyfforddiant. Mae strategaeth y llu ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn amlinellu sut y bydd yn ymgysylltu a chyfathrebu â chymunedau. Mae'n ceisio adborth a her gan y bobl mae'n eu gwasanaethu ynghylch y graddau mae'n eu trin â thegwch a pharch.

Mae Heddlu De Cymru'n dda o ran trin y bobl mae'n eu gwasanaethu â thegwch a pharch. Mae ei weledigaeth a gwerthoedd yn glir, wedi'u deall gan staff ac yn cydfynd yn llwyr â'r Cod Moeseg, ac mae ei bolisïau'n adlewyrchu hyn. Mae'r llu'n nodi ac yn gweithio gyda phobl sydd â llai o ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu ac yn ceisio adborth gan gymunedau trwy ddefnyddio amrediad eang o ddulliau. Mae'n gweithredu ar ddysg ac adborth ar draws y llu, ac weithiau'n ehangach gyda sefydliadau partner a heddluoedd eraill.

Mae'r llu'n dda o ran sicrhau bod ei weithlu'n ymddwyn yn foesegol ac yn gyfreithlon. Mae'n cymryd y broses wirio o ddifri ac yn dilyn canllawiau cenedlaethol, er mwyn ceisio sicrhau ei fod yn recriwtio swyddogion, staff a gwirfoddolwyr moesegol. Mae ganddo bolisïau clir ar fuddiannau busnes, cymdeithasau hysbysadwy, rhoddion a lletygarwch, a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw'n dilyn i fyny fel mater o drefn ar fuddiannau busnes sydd wedi'u gwrthod. Mae'r llu'n sicrhau y gall y cyhoedd gyrchu gwybodaeth fanwl ar ganlyniadau gwrandawiadau cyhoeddus. Hefyd mae'n weithgar o ran hysbysu'r gweithlu ar bob lefel ynghylch canlyniadau gwrandawiadau camymddwyn a chyfarfodydd camymddwyn.

Mae gan y llu ddymuniad clir i drin ei weithlu â thegwch a pharch, ond mae ei broses gyfredol i asesu perfformiad yn aneffeithiol. Mae'n bwriadu cynnal arolwg o staff a chyflwyno system fwy effeithiol i adolygu datblygu perfformiad, ond dylid blaenoriaethu'r bylchau hyn. Mae'r llu'n cymryd camau cadarnhaol i nodi a deall anghenion lles ei weithlu ac yn darparu cymorth i staff sydd â phroblemau corfforol neu iechyd meddwl.